AcademiWales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol 2022-23



Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru
One Welsh Public Service

#UnGwasanaethCyhoeddusCymru

# Cynnwys

Croeso i Adroddiad Blynyddol 2022-23. Fe'i hysgrifennwyd fel llinell amser sy'n tynnu sylw at ein prif lwyddiannau yn ystod pob cyfnod o dri mis.


Trosolwg y Cyfarwyddwr 3

Cipolwg ar ein Blwyddyn 5

Ystadegau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 7

Ebrill – Medi 2022 8

Hydref – Rhagfyr 2022 10

Ionawr – Mawrth 2023 14


Gallwch ddysgu mwy amdanon ni, y gwaith rydyn ni'n ei wneud, gyda phwy rydyn ni'n gweithio, a'n gwerthoedd, drwy ymweld â'n gwefan:

llyw.cymru/academiwales

Delwedd y clawr blaen: Cwm Elan, lle cynhaliwyd Ysgol Aeaf 2023. Dysgwch fwy am Ysgol Aeaf 2023 ar dudalen 8.


OGL © Hawlfraint Crown 2023, Llywodraeth Cymru, WG47465,


ISBN digidol 978-1-83504-502-2


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

# Trosolwg y Cyfarwyddwr

## Alex Walters, Cyfarwyddwr, Academi Wales



Mae'n bleser cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2022-23 Academi Wales. Am flwyddyn mae wedi bod! Rydym wedi dechrau gweld symud yn ôl at ein digwyddiadau wyneb yn wyneb. Rydym wedi dysgu cymaint dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf am ddarpariaeth rithiol a hybrid, a bydd hyn yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig. Ond ar gyfer llawer o'r rhaglenni a gynhaliwn, lle rydym yn edrych i gael effaith wirioneddol ar unigolion ac yn helpu arweinwyr i wneud newidiadau ymddygiadol go iawn i wella eu harweinyddiaeth a chyflawni canlyniadau trawsnewidiol, mae ymyriadau wyneb yn wyneb yn rhan hynod bwysig o'r hyn a wnawn yn Academi Wales. Edrychwch ar y ffeithlun ar y dudalen nesaf i weld rhai o'n cyflawniadau.

Ochr yn ochr â'r holl waith gwych y byddwch yn darllen amdano yng nghorff yr adroddiad hwn, cynhaliwyd tri gweithgaredd allweddol eleni sy'n wirioneddol wedi adeiladu'r sylfeini ar gyfer ein dyfodol. Roedd eleni, i ni, yn ymwneud ag edrych ar yr hyn a wnawn fel Academi Wales, a dechrau meddwl am y datblygiadau arloesol y gallwn eu gwneud i'n cynnig dros y blynyddoedd nesaf.

Yn gyntaf, ym mis Medi, dechreuon ni ein dathliadau deng mlynedd. Hyfryd oedd gweld nifer o'n cyd-weithwyr, rhanddeiliaid a ffrindiau yn ein digwyddiad dathlu. Roedd hwn yn gyfle i edrych yn ôl ar gyflawniadau anhygoel Academi Wales, ac ar yr effaith rydym wedi'i chael ar draws gwasanaethau cyhoeddus ers ein sefydlu yn 2012. Mae dathlu'r deng mlynedd yn parhau i fod yn thema i'n gweithgareddau hyd at fis Medi 2023, wrth i ni barhau â'r gweithgaredd pwysig o adfyfyrio, ac ar yr un pryd dechrau edrych ymlaen at yr hyn sydd i ddod.


Yn ail, mae'r tîm eleni wedi bod yn datblygu ein strategaeth newydd, gyda'i lansiad yn digwydd yn ystod ein digwyddiad dathlu deng mlynedd. Mae ein diben newydd – trawsnewid Cymru drwy ragoriaeth mewn arweinyddiaeth – yn uchelgeisiol, fel y dylai fod. Mae ei uchelgais yn adlewyrchu'r ffaith na allwn gyflawni hyn ar ein pennau ein hunain, ac yn amlygu'r pwysigrwydd ein bod yn cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus i drawsnewid. Mae ein gweledigaeth: i fod yn borth i ddatblygu arweinyddiaeth a rhoi cefnogaeth i drawsnewid – yn cadarnhau ymhellach y ffocws hwn ar gydweithio a phartneriaeth. Rydym am ddeall cefndir Cymru, a meithrin a chynnal partneriaethau ardderchog i'n galluogi i fynegbostio i wasanaethau perthnasol, ac i gydweithio a chynhyrchu gyda'n gilydd.

Dim ond trwy weithredu fel Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru y gallwn gyflawni'r hyn y bwriadwn ei gyflawni. Mae ethos Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru wedi bod yn sbardun allweddol i Academi Wales ers blynyddoedd lawer, a dyna oedd y sefyllfa eleni. Mae'r ystod o sefydliadau y buom yn partneru ac yn gweithio â nhw drwy gydol gweithgareddau eleni yn brawf o hyn, a gallwch ddarllen mwy am hyn ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Yn drydydd, rydym wedi datblygu ac ymwreiddio ein swyddogaeth ymchwil a dadansoddi newydd. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi a llenwi unrhyw fylchau yn ein cynnig, gwerthuso ein rhaglenni allweddol yn ddyfnach, a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithredu yn y byd modern a chymhleth hwn. Bydd ffocws mwy cadarn ar ymchwil a dadansoddi yn galluogi ein trawsnewid sefydliadol ein hunain, a datblygu ac arloesi parhaus ein hymyriadau ledled Academi Wales.

Ein bwriad yw y byddwch yn parhau i weld y rhaglenni a'r ymyriadau gwych o safon gan Academi Wales yr ydych wedi dod i arfer â nhw. Ond yn ogystal, byddwch yn gweld dros y blynyddoedd nesaf mwy o arloesi yn ein cynnig, mwy o gydweithio â phob un ohonoch, a mwy o ymchwil a gwerthuso. Bydd Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf yn edrych yn wahanol, wrth ni ddweud wrthych am yr hyn y buom yn ei wneud ym mlwyddyn gyntaf cyflawni ein strategaeth, a chanolbwyntio ein diweddariadau yn erbyn ein tri nod strategol.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am waith gwych y tîm yn ystod 2022-23 ac rydym yn edrych ymlaen at weithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf, i drawsnewid Cymru drwy ragoriaeth mewn arweinyddiaeth.




*Golwg ar Strategaeth Academi Wales 2023 – 2026*

# Cipolwg ar ein blwyddyn...

**Cyllideb**
**£1.134k**

**3,079**
o gynrychiolwyr

**Cost gyfartalog**
I'w gyflawni yn cyfateb i
**£368**
fesul
cynrychiolydd

**1,334**
o gyfrifon newydd ar ein **gwefan**

**212,495**
o edrychiadau ar ein **gwefan**

Gwnaethom
**gyflwyno**
**153**
o ddigwyddiadau, gweithdai, cyrsiau a chynadleddau

**6,991**
o ddilynwyr Twitter, a

**7,749**
o danysgrifwyr i'n bwletin cyfleoedd misol

**30,408**
o bobl wedi gwylio ein fideos YouTube

Dyna gyfanswm amcangyfrifedig o amser gwylio o
**5,821** awr!

YouTube

# Dathliadau 10 mlynedd Academi Wales a lansio strategaeth newydd

Ym mis Mawrth 2023, dathlodd Academi Wales ei phen-blwydd yn 10 oed drwy wahodd ffrindiau a chyd-weithwyr o bell ac agos i ymuno â lansiad ein strategaeth newydd ar gyfer 2023-2026.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn ystafell newydd yr Hafod ym Mharc Cathays, Caerdydd, a chroesawyd siaradwyr o blith cyn-gyfarwyddwyr Academi Wales ac aelodau presennol y tîm, gyda phob un yn rhannu eu hatgofion anwylaf o Academi Wales, ynghyd â'u gobeithion a'u huchelgeisiau ar gyfer ei dyfodol.

Dywedodd Alex Walters, Cyfarwyddwr Academi Wales, am y strategaeth newydd:

*"Er bod ein strategaeth newydd yn cynrychioli newid diwylliant go iawn i Academi Wales, mewn sawl ffordd, mae'n debycach i adfywio ein cynnig ac egluro popeth a wnawn. Byddwch yn parhau i fod yn gyfarwydd â'r brand a'r atebion yr ydym yn eu cynnig, a hefyd yn gweld arloesi o flwyddyn i flwyddyn."*




*Alex Walters*

Dywedodd Jo Hicks, cyn-Gyfarwyddwr Academi Wales:

*"Ganwyd brand Academi Wales mewn ystafell fechan yn yr adeilad hwn...ac yn dilyn gwaddol a gwaith ei sefydliadau rhagflaenol, gan gynnwys RhNgCC, roedd lansio brand Academi Wales yn ein caniatáu i feddwl am sut yr ydym yn dylunio ac yn cyflwyno gweithgareddau cydweithredol, ymyriadau, rhaglenni, a fyddai'n sefydlu ffyrdd newydd o weithio gyda'n gilydd ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus."*



*Jo Hicks*

*"Roedd yn fraint cael arwain tîm bendigedig, yn gwneud gwaith bendigedig, mewn gwlad fendigedig. Edrychaf ymlaen at wylio gyda diddordeb yr hyn a ddaw nesaf i Academi Wales, a gweld sut y bydd y strategaeth hon yn datblygu."*

Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i ni rannu ein cynrychiolaeth weledol o'r strategaeth gyda chynulleidfa ehangach am y tro cyntaf. Buom yn gweithio gyda Fran O'Hara o Scarlet Design i greu'r adnodd gweledol, sy'n portreadu diben, gweledigaeth a nodau strategol Academi Wales mewn darlun.
Cewch ei weld yma.

Gweler mwy o luniau o'r digwyddiad ar Flickr.

Darllenwch ein strategaeth newydd ar gyfer 2023-2026 yma.

# Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth

## Rhagarweiniad

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein rhaglenni yn agored ac yn hygyrch, fel y gallwn gefnogi datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'n hanfodol ein bod yn monitro ac yn dadansoddi gwybodaeth am amrywiaeth, fel y gallwn sicrhau bod ein harferion recriwtio a marchnata rhaglenni yn deg ac yn dryloyw, ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

Rydym yn ymgorffori cwestiynau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'n ceisiadau ar gyfer digwyddiadau, ac eithrio digwyddiadau a sesiynau coetsio pwrpasol. Heb gynnwys digwyddiadau eithriedig, bu cyfanswm o 2,488 o geisiadau yn 2022-23. Mae'r ffigwr hwn yn sail i'r canrannau sydd yn adroddiad yr adran hon.

### Ethnigrwydd

- Fe wnaeth 89% o ymgeiswyr ddisgrifio eu grŵp ethnig fel 'Gwyn: Cymreig/Seisnig/Albanaidd/ Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig'

### Rhywedd

- Fe wnaeth 77.3% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel 'Benywaidd'.
- Fe wnaeth 19.2% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel 'Gwrywaidd'.

### Hunaniaeth rywiol

- Fe wnaeth 86.1% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel 'Heterorywiol neu syth'.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai a atebodd 'Gwell gennyf beidio â dweud' (8.7%).

### Hunaniaeth rhywedd

- Dywedodd 94.5% o ymgeiswyr fod y rhywedd y maent yn uniaethu ag ef yr un fath â'u rhywedd a gofrestrwyd adeg eu geni.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai a atebodd 'Gwell gennyf beidio â dweud' (5.2%).

### Oed

- Fe wnaeth 19.2% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel 'rhwng 40 a 44 oed'.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai yn disgrifio eu hunain fel 'rhwng 50 a 54 oed' (17.4%).

### Hunaniaeth genedlaethol

- Fe wnaeth 57.6% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel 'Cymreig'.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai oedd yn disgrifio eu hunain fel 'Prydeinig' (27.7%).

### Ethnigrwydd

- Fe wnaeth 89.1% o ymgeiswyr ddisgrifio eu grŵp ethnig fel 'Gwyn: Cymreig/Seisnig/ Albanaidd/Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/ Prydeinig'.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai a atebodd 'Gwell gennyf beidio â dweud' (4.1%).

### Anabledd

- Fe wnaeth 10.3% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain fel unigolyn â chyflwr iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy.
- Dywedodd 4.7% o ymgeiswyr bod eu cyflwr neu salwch yn amharu ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau pob dydd.

### Crefydd

- Fe wnaeth 47.7% o ymgeiswyr ddatgan nad oedd ganddynt grefydd.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai oedd yn uniaethu fel Cristnogion (40.6%).

### Beichiogrwydd

- Fe wnaeth 0.3% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain yn feichiog.
- Dywedodd 0.6% o ymgeiswyr eu bod wedi cael babi yn y 12 mis diwethaf.

### Statws priodasol

- Fe wnaeth 58.9% o ymgeiswyr ddisgrifio eu hunain yn briod neu mewn partneriaeth sifil.
- Yr ail gategori mwyaf oedd y rhai oedd yn datgan eu bod yn sengl (17.9%).

## Gwybodaeth bellach

Nid ydym yn casglu gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau pwrpasol am nad ydym yn chwarae rhan mewn dethol y cynrychiolwyr. Nid ydym yn casglu gwybodaeth ar gyfer sesiynau coetsio oherwydd natur yr hyn sy'n cael ei gynnig.

# Ebrill – Medi 2022 – Ch1 a Ch2

## Tîm Gwelliant Parhaus

**Gwella'r Pethau Pwysig**

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd gweithdy peilot newydd. Mae *Gwella'r Pethau Pwysig* yn weithdy rhyngweithiol sy'n seiliedig ar y rhagdybiaeth bod y rhan fwyaf ohonom ar ryw adeg yn ein gyrfaoedd wedi dod ar draws a chymryd rhan mewn mentrau sy'n ceisio 'creu rhagoriaeth' – gwella effeithlonrwydd, cynyddu cynhyrchiant, a gwasanaeth sy'n sicrhau ansawdd. Mae'r sesiwn yn herio realiti'r dyheadau hyn gyda 'galwad i ddeffro' sy'n gofyn:

- A ydym hyd yn oed yn gwneud y pethau sylfaenol yn dda?
- A ydym yn deall beth yw'r pethau sylfaenol?
- Pa gamau y mae angen i ni eu cymryd i wreiddio a chynnal y gofynion hanfodol hyn?

## Tîm Talent ac Olyniaeth

**Ysgol Haf Arweinyddiaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2022**

Yn dathlu ei 17eg flwyddyn ac yn uchafbwynt yng nghalendr digwyddiadau Academi Wales, cynhaliodd y Tîm Talent ac Olyniaeth *Ysgol Haf Arweinyddiaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru* rithiol lwyddiannus rhwng 28 a 30 Mehefin 2022. Dyluniwyd y rhaglen yn benodol i ddiwallu anghenion datblygu allweddol arweinwyr Cymru, a'r rhai sy'n gweithio o fewn gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol Cymru.

Yr her fwyaf arwyddocaol i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru fu addasu a datblygu ystod o sgiliau newydd i ddiwallu anghenion ein hamgylcheddau gwaith newydd, a chydnabod bod cydbwyso cynaliadwyedd â chefnogi anghenion gweithwyr yn allweddol wrth i ni greu normal newydd ar ôl y pandemig. Bydd hyn yn golygu bod sefydliadau'n canolbwyntio mwy ar amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant, yn ogystal â materion amgylcheddol a chymdeithasol.

Bu'r profiad dysgu dwys tridiau o hyd ar-lein yn dwyn ynghyd arweinwyr ac uwch reolwyr i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn. Bu'n ysbrydoledig ac yn fewnweledol, gan alluogi cynrychiolwyr i ddarganfod safbwyntiau a syniadau newydd i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth i wynebu'r heriau hyn er mwyn diwallu anghenion dinasyddion Cymru yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Thema 2022 oedd 'Dyfodol Creadigol'. Clywodd y cyfranogwyr gan lu o siaradwyr ysbrydoledig o fri rhyngwladol gan gynnwys Emmanuel Gobillot, John Amaechi OBE, Nick Obolensky, Dorothy Brown, Lt Col Andy Child a Linda Aspey i enwi ond rhai.

Adborth cynrychiolwyr:

> *"Rhagorol; ymhell tu hwnt i'm disgwyliadau. Gymaint yn fwy na dim ond cwrs arall ar arweinyddiaeth a rheoli."*
>
> *"Cyfle gwych, cymysgedd diddorol o brofiad a gwybodaeth ymhlith y grwpiau a siaradwyr o'r radd flaenaf a wnaeth i mi adfyfyrio a herio fy hun."*
>
> *"Roedd pob un o'r siaradwyr yn ysbrydoledig. Am raglen wych rydych wedi'i rhoi at ei gilydd ar ein cyfer."*

## Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

**Ymwybyddiaeth Ofalgar – Y tu hwnt i Lesiant ac ymlaen i Arweinyddiaeth a Datblygiad Personol**

Datblygwyd ymwybyddiaeth ofalgar mewn lleoliad iechyd, gan ddwyn ynghyd ddoethineb hynafol a seicoleg fodern, sy'n golygu ei bod yn rhan o lesiant. Datblygwyd y rhaglen ymwybyddiaeth ofalgar wreiddiol yn yr 1980au. Yn fwy diweddar mae sawl llyfr ag ymagwedd arweinydd meddylgar wedi'u hysgrifennu, gan arwain at fodelau i gymhwyso byw mewn modd mwy meddylgar i arweinyddiaeth, timau a sefydliadau. Bu Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid Academi Wales yn ymchwilio i rai o'r rhaglenni hyn, ac wedi cychwyn trafodaethau cynnar i ddarparu deunydd ar drwydded.

Y strategaeth yw datblygu rhaglen o'r enw Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Ofalgar. Wedyn, y nod yw ennyn diddordeb am raglen arweinwyr meddylgar mwy hirdymor; a'i chysylltu ag enciliad arweinwyr, gan amlygu manteision cysylltu â'r awyr agored.

Daw'r canlyniadau gorau o ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar drwy sesiynau ymarfer hirach mewn grwpiau, ac fe wnaeth hyn arwain y tîm at y syniad o greu cymuned ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'r dull hwn yn cefnogi Dyfodol Cynaliadwy ac Ymwybyddiaeth Ofalgar yn seiliedig ar ddeall ymddygiad (MBBI) Llywodraeth Cymru.

### Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru


Mae'r Tîm Arwain a Datblygu yn parhau i addasu a chyflwyno ei raglenni wyneb yn wyneb ac yn rhithiol, er mae'r galw am ryngweithio wyneb yn wyneb yn cynyddu. Er enghraifft, bu bron i 80 aelod o Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru yn elwa o ddigwyddiad datblygu arweinyddiaeth, a hwyluswyd gan Academi Wales, a ddaeth â nhw ynghyd mewn person am y tro cyntaf mewn dwy flynedd a hanner ers dechrau'r pandemig COVID-19. Roedd yr egni'n amlwg wrth i bobl gyfarfod eto, ac am y tro cyntaf, ac fe atgyfnerthwyd cysylltiadau grŵp. Gwelwyd effaith debyg pan ddaeth staff o Gyngor Sir Conwy ynghyd ym Mae Colwyn, gogledd Cymru ar gyfer rhaglenni datblygu arweinyddiaeth *Saith Arfer Pobl Hynod Effeithiol a Seicoleg Gadarnhaol* Academi Wales.

Fe wnaeth aelod o'r Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid gwblhau'n llwyddiannus *Raglen Arweinyddiaeth Weithredol Rhydychen* Ysgol Fusnes Saïd Prifysgol Rhydychen. Wedi'i chynnal ar-lein, a chyda myfyrwyr o bob cwr o'r byd, bu'r rhaglen ddwys hon yn cyfuno theori ac ymarfer gweithredol ac yn archwilio themâu craidd arweinyddiaeth, gan gynnwys pŵer a dylanwad, cymhelliant, dilysrwydd a hyblygrwydd, newid, cymhlethdod ac amrywiaeth. Bu Academi Wales yn gallu meincnodi a chadarnhau cynnwys llawer o'i rhaglenni arweinyddiaeth presennol, a hefyd nodi cyfleoedd am gynigion yn y dyfodol a fydd yn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygu arweinyddiaeth.

## Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Bwrdd

**Rhaglen Sefydlu Aelodau Bwrdd Annibynnol GIG Cymru (27–28 Ebrill a 4-5 Mai)**

Mewn partneriaeth â Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uwch Arweinwyr o Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, cyflwynwyd pedwar modiwl y rhaglen hon gan Academi Wales yn ystod mis Ebrill a mis Mai.




Cynlluniwyd y rhaglen ar gyfer Aelodau Cysylltiol ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd, newydd eu penodi, er mwyn darparu'r gefnogaeth a'r wybodaeth berthnasol i ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac amlinellu'r hyn a ddisgwylir o rôl aelod o'r Bwrdd, i'w helpu i fynd i'r afael â'r heriau penodol a chyflawni'r newidiadau i'r gwasanaeth sydd eu hangen ar draws GIG Cymru a'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r rhaglen ryngweithiol rithiol hon yn cynnig cyfleoedd i gynrychiolwyr glywed gan gyn-aelodau Bwrdd profiadol ac archwilio sut i berfformio'n effeithiol mewn cyfnodau heriol. Mae'n sail i'r wybodaeth sylfaenol y mae aelodau yn ei meithrin, gan roi cyfle iddynt gymryd rhan mewn trafodaeth ar y ffordd orau o reoli effeithiau newidiadau a gwelliannau mewn gwasanaeth.

Ymhlith modiwlau'r Rhaglen mae:


- Cyflwyniad i ethos, blaenoriaethau a dyheadau GIG Cymru.
- Llywodraethu yn y GIG a'ch rôl fel Aelod Cysylltiol ac Aelod Annibynnol o'r Bwrdd.
- Ystyriaethau ansawdd, perfformiad, cynllunio a chyllid.
- Pwysigrwydd sicrwydd a rôl y Bwrdd.

# Hydref – Rhagfyr 2022 – Ch3

## Tîm Gwelliant Parhaus

**Sesiwn Hyrwyddwyr y Menopos**

Cynhaliodd y tîm GP sesiwn gyntaf Hyrwyddwyr y Menopos. Roedd 10 cynrychiolydd yn y sesiwn, a gynhaliwyd fel prawf, gyda'r nod o roi iddynt y wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu dychwelyd i'w sefydliadau a bod yno i gefnogi a mynegbostio cyd-weithwyr at gyngor gan ffynonellau dibynadwy.



## Tîm Talent ac Olyniaeth

**Cynhadledd Goetsio Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru**

Gan adeiladu ar lwyddiant cynadleddau coetsio blaenorol, cynhaliodd Academi Wales Gynhadledd Goetsio Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru fel digwyddiad byw ar 17 Tachwedd 2022 gyda'r thema 'Syndrom Twyllwr – Y Teimlad Cudd o Fod yn Dwyllwr'. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Stadiwm Principality, Caerdydd ac roedd y gynulleidfa yn cynnwys 92 o goetswyr ffurfiol ac anffurfiol wedi'u dwyn ynghyd o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Roedd y gynhadledd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ac offer ymarferol y gellir eu defnyddio er twf personol i gefnogi datblygiad eraill, gan helpu i feithrin neu atgyfnerthu arferion presennol fel coetsiwr neu wella eu sgiliau unigol fel rheolwr ac arweinydd. Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i gynrychiolwyr rwydweithio a rhannu eu profiad a'u harferion da o bob rhan o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Roedd y prif themâu yn cynnwys 'Syndrom Twyllwr yn fanwl: y wyddoniaeth, yr achos sylfaenol a'r atebion ymarferol i'ch cleientiaid' ac 'Archwilio sut y gall syndrom twyllwr, bwlio ac anghwrteisi a diffyg diogelwch seicolegol yn y gwaith, ymddangos mewn sgwrs goetsio'.

Mae'r adborth yn awgrymu bod y digwyddiad wedi cael croeso brwd a bellach mae'r gynhadledd wedi ennill ei phlwyf fel un o'r digwyddiadau uchaf eu proffil yn nyddiadur gweithgareddau blynyddol Academi Wales.

Adborth cynrychiolwyr:

> *"Cyfle gwych i rwydweithio! Braf dychwelyd at ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a gallu mwynhau'r diwrnod a siarad â phobl eraill!"*
>
> *"Mae'r diwrnod cyfan wedi bod yn ffynhonnell wych o wybodaeth a mewnwelediad."*

# Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid a Thîm Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan



*Cyfranogwyr Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan yn cymryd rhan yn rhaglen 'Saith Arfer Pobl Hynod Effeithiol'*

**Gweithdy deuddydd Saith Arfer Pobl Hynod Effeithiol ar gyfer cyfranogwyr Rhaglen Graddedigion Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yng Nghwm Elan**

Ym mis Hydref, daeth cyfranogwyr Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan ynghyd yng Nghwm Elan, canolbarth Cymru ar gyfer y rhaglen *Saith Arfer Pobl Hynod Effeithiol*. Dros ddau ddiwrnod fe ddangosodd y profiad dysgu pleserus a thrawsnewidiol hwn fod egwyddorion digyfnewid Dr Steven R. Covey o ran effeithiolrwydd personol a phroffesiynol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfoes; yn enwedig o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n gofyn am arweinyddiaeth effeithiol ac ystwyth wrth ymateb i alw, ansicrwydd a newid cynyddol.

Bu cyfranogwyr y rhaglen yn archwilio arferion ac egwyddorion arwain allweddol oedd yn eu hysgogi a'u hysbrydoli i:

- fentro
- gwella cyfathrebu rhyngbersonol
- sefydlu mwy o ymddiriedaeth
- cryfhau perthynas pobl â'i gilydd
- cynyddu dylanwad
- cydbwyso blaenoriaethau allweddol.

Dywedodd un o'r graddedigion:

*"Bellach rwy'n teimlo bod gen i sgiliau mwy ymarferol a throsglwyddadwy ac rwy'n teimlo'n fwy hyderus ac yn gallu rheoli fy ngwaith. Rwyf hyd yn oed wedi rhannu rhai o'r 7 Arfer gyda fy rheolwr ac mae hi wedi bod yn eu defnyddio nhw hefyd!"*

# Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

**Gwobrau HPMA**


Ar 1 Rhagfyr, fe gyflwynodd Academi Wales y wobr am Ragoriaeth mewn Datblygu Sefydliadol yng Ngwobrau HPMA. Roedd y gwobrau yn dathlu'r prosiectau arweinyddiaeth mwyaf creadigol ac arloesol gan y GIG o gyfnod y pandemig. Roedd yn ddigwyddiad arbennig oherwydd dyma'r gwobrau cyntaf ers pandemig Covid-19, yn dathlu cyflawniadau anhygoel y rhai sy'n helpu i'n cadw'n ddiogel trwy gyfnod heriol iawn.



*Ross Storr o Academi Wales yn cyflwyno'r wobr am Ragoriaeth mewn Datblygu Sefydliadol yng Ngwobrau HPMA 2023*

# Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Bwrdd

**Hydref a Thachwedd 2022 – Gweithdai Gallu Perfformiad Uchel**




Fe wnaeth Academi Wales hwyluso *Gweithdai Gallu Perfformiad Uchel* gyda 2 uwch dîm arwain Heddlu De Cymru: o Uned Reoli Busnes Caerdydd a'r Fro (BCU) ac Uned Ymchwilio Gwyddonol Ar y Cyd (JSIU).


Datblygwyd y gweithdy i alluogi sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i asesu perfformiad eu huwch dîm rheoli, gan archwilio 3 maes gallu (arweinyddiaeth, strategaeth a chyflenwi) i nodi meysydd â pherfformiad uchel a'r rhai yr oedd angen eu gwella.

Roedd y gweithdai'n fan cychwyn ar gyfer trafodaeth wybodus ymhlith yr uwch dimau i fynd i'r afael â blaenoriaethau cyflawni a datblygu priodol yn eu heffeithiolrwydd, a oedd yn nodi meysydd allweddol perfformiad yr uwch dîm oedd y cryfaf a'r rhai oedd angen eu gwella. Arweiniodd y gweithdy at y ddau uwch dîm yn nodi meysydd blaenoriaeth allweddol a lywiodd eu cynlluniau cyflenwi busnes ar gyfer y 12 i 18 mis sy'n weddill.

**Tachwedd 2022 – Rhaglen Sefydlu Aelodau Bwrdd Annibynnol GIG Cymru**

Mewn partneriaeth â Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uwch Arweinwyr o Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, cyflwynwyd pedwar modiwl y rhaglen hon gan Academi Wales yn ystod mis Tachwedd 2022.

Cynlluniwyd y rhaglen ar gyfer Aelodau Cysylltiol ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd, newydd eu penodi, er mwyn darparu'r gefnogaeth a'r wybodaeth berthnasol i ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac amlinellu'r hyn a ddisgwylir o rôl aelod o'r Bwrdd, i'w helpu i fynd i'r afael â'r heriau penodol a chyflawni'r newidiadau i'r gwasanaeth sydd eu hangen ar draws GIG Cymru a'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.




Mae'r rhaglen ryngweithiol rithiol hon yn cynnig cyfleoedd i gynrychiolwyr glywed gan gyn-aelodau Bwrdd profiadol ac archwilio sut i berfformio'n effeithiol mewn cyfnodau heriol. Mae'n sail i'r wybodaeth sylfaenol y mae aelodau yn ei meithrin, gan roi cyfle iddynt gymryd rhan mewn trafodaeth ar y ffordd orau o reoli effeithiau newidiadau a gwelliannau mewn gwasanaeth.

Ymhlith modiwlau'r Rhaglen mae:

- Cyflwyniad i ethos, blaenoriaethau a dyheadau GIG Cymru.
- Llywodraethu yn y GIG a rôl Aelod Cysylltiol ac Aelod Annibynnol o'r Bwrdd.
- Ystyriaethau ansawdd, perfformiad, cynllunio a chyllid.
- Pwysigrwydd sicrwydd a rôl y Bwrdd.

# Ionawr – Mawrth 2023 – Ch4

## Gwelliant Parhaus

**Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth Deallusrwydd Cyfan**

Mae Malcolm Parlett yn diffinio 'Deallusrwydd Cyfan' fel y doethineb ymarferol cynhenid sy'n bresennol ym mhob un ohonom – yn ein henaid, ein gweithredoedd ac yn ein datblygiad; sut beth yr ydym, a sut yr ydym yn deall ein hunain yn feddyliol, yn gorfforol ac yn ysbrydol; sut yr ydym yn cydweithio ag eraill, arbrofi ac arloesi, ac yn ymateb i fywyd, boed hynny mewn cyfnod o lawenydd neu gyfnod heriol.

Cred Malcolm, ein bod ni yn y blynyddoedd diwethaf wedi tueddu i fod yn fwy rhagfarnllyd tuag at ffordd wybyddol o ddehongli'r byd, gan ddibynnu ar resymeg a rhesymoliaeth fel modd i wneud synnwyr o'r hyn yr ydym yn ei weld, ei brofi ac yn datblygu gwybodaeth ohono. Mae hyn wedi arwain at 'orsymleiddio' ein galluoedd creadigol cynhenid eraill y mae gan bob un ohonom fynediad atynt ac yn aml yn methu â'u hadnabod, heb sôn am dapio i mewn iddynt, yn rheolaidd.

Gyda dros 60 o gynrychiolwyr yn mynychu, bu'r digwyddiad hwn yn archwilio'n fanwl un o'r pum gallu (ymateb i'r sefyllfa), ac yn dangos hefyd sut y gall y pedwar gallu arall (cydberthyn, adnabod dieiriau, hunangydnabod ac arbrofi), fframio a dyfnhau profiad yr un a ddewiswyd. Profodd cynrychiolwyr gysylltiad â'u 'Deallusrwydd Cyfan' eu hunain, i brofi mewnwelediad unigryw i bŵer a chymhwysiad y dull hwn yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Mae cymhwyso'r dull hwn yn ceisio sicrhau cynnydd mewn boddhad a hyder wrth ymateb i sefyllfaoedd, meithrin perthnasoedd cryf, tapio mewn i'ch deallusrwydd corfforol yn ogystal â'ch deallusrwydd gwybyddol, dysgu pŵer hunan-adfyfyrio, a phwysigrwydd arbrofi bwriadol.

Adborth cynrychiolydd:

> *"Dim ond clod sydd gen i i ddigwyddiad y bore yma a'r gweithgareddau rydych chi'n sôn amdanynt. Roedd y sesiwn yn hynod ddefnyddiol i mi."*

## Talent ac Olyniaeth

**Ysgol Aeaf 2023**




*David Halpern CBE yn siarad yn yr Ysgol Aeaf 2023*

Am y drydedd flwyddyn ar ddeg, cynhaliodd Academi Wales yr *Ysgol Aeaf Arweinwyr Un Gwasanaeth Cyhoeddus* flynyddol, gan ddychwelyd at ddigwyddiad byw, preswyl rhwng 7 a 10 Chwefror 2023, yn lleoliad hyfryd Nant Gwrtheyrn yng ngogledd Cymru.

Roedd y gynulleidfa yn cynnwys 34 o uwch arweinwyr yn cynrychioli 27 sefydliad a phob un yn gweithio o fewn tair haen uchaf gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol Cymru. Fe wnaeth y rhaglen 'ymestyn' pedwar diwrnod hon roi cyfle i archwilio ffyrdd arloesol o 'gyflenwi'r busnes', gan ddefnyddio cyfoeth o wybodaeth a phrofiad byd-eang.

Fel rhan o ddathliadau 10 mlynedd Academi Wales, thema Ysgol Aeaf 2023 oedd 'Cefnogi arweinwyr heddiw i greu yfory mwy disglair i Wasanaethau Cyhoeddus Cymru – dathlu'r 10 mlynedd' gan gipio uchafbwyntiau rhaglenni'r Ysgol Aeaf dros y 10 mlynedd diwethaf. Dychwelodd siaradwyr uchel eu proffil gan gynnwys Thimon de Jong, Nazir Afzal OBE a'r Athro Eugene Sadler Smith. Rhoddodd rhaglen yr Ysgol Aeaf gyfle i archwilio ffyrdd newydd o arwain a rheoli'r busnes a datblygu dulliau newydd o wneud y gorau o berfformiad.

Adborth cynrychiolwyr:

*"Mae cymryd amser allan i ganolbwyntio ar eich dulliau arwain yn angenrheidiol er mwyn gallu arwain yn dda, ac mae'r Ysgol Aeaf yn eich galluogi i wneud hynny gydag unigolion â'r un meddylfryd mewn gofod diogel mewn lleoliad trawiadol, er lles y meddwl, y corff a'r enaid – byddaf yn arweinydd gwell ar ôl gwneud y mwyaf o'r amser allan hwn."*

*"Wythnos fendigedig gyda phobl fendigedig, yn fy nysgu ei fod yn iawn i fod yn ddynol yn eich dulliau arwain."*

*"Yr Ysgol Aeaf fu'r rhaglen arweinyddiaeth orau i mi ei gwneud erioed. Mae gan y rhaglen siaradwyr o'r radd flaenaf, ac mae'r cyfle i gysylltu ag uwch arweinwyr o wasanaethau cyhoeddus Cymru heb ei ail. Rwyf wedi dysgu cymaint, wedi gwneud ffrindiau gwych ac yn gadael wedi fy ysbrydoli. Dwi erioed wedi teimlo mor ymrwymedig ac mor lwcus i gael profiad o'r fath."*

# Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

**Podlediad Academi Wales**

Cyffrous iawn oedd dechrau cynhyrchu podlediad Academi Wales o'r enw *Sgyrsiau ar Arweinyddiaeth*.

Roedd ein cyfres o bodlediadau yn gyfle i ni gwrdd a chyfweld ag arweinwyr o bob rhan o Gymru ac Ewrop, ac yn caniatáu i'n gwrandawyr glywed eu hanesion arweinyddiaeth, wrth ddod i'w hadnabod ar lefel fwy personol. Mae'r gyfres o bodlediadau yn cynnig cyfle cyfleus i'n gwrandawyr gael mewnwelediadau i arweinyddiaeth mewn modd rhithiol.

Rhyddhawyd penodau gennym drwy gydol y flwyddyn a byddwn yn canolbwyntio ar westeion a themâu ar gyfer y dyfodol yn dilyn adborth.

**Arweinyddiaeth yn Gryno**

Ym mis Ionawr 2023, fe lansiodd Academi Wales *Arweinyddiaeth yn Gryno*, gweithdy rhyngweithiol byr ar gyfer staff y sector cyhoeddus sy'n paratoi ar gyfer eu rôl arweinyddiaeth a rheoli gyntaf, neu sydd eisoes yn y rôl honno. Oherwydd ei fod ar gael ar-lein, yn para awr ac yn cael ei gynnal am hanner dydd, mae Arweinyddiaeth yn Gryno yn gyflym wedi'i sefydlu'n rhan lwyddiannus, y mae galw mawr amdani, o bortffolio arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol Academi Wales.

# Tîm Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan



*Cyfranogwyr Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan yn cymryd rhan mewn gweithdy Cyflwyniad i Welliant Parhaus*

**Gweithdy Gwelliant Parhaus**

Ym mis Mawrth, bu cyfranogwyr Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan yn cymryd rhan mewn gweithdy Cyflwyniad i Welliant Parhaus, fel rhan o'u rhaglen ddysgu a datblygu bwrpasol. Hwyluswyd y sesiwn undydd gan Academi Wales ac roedd nodau'r sesiwn yn cynnwys defnyddio dull strwythuredig mewn tîm i ddatrys problemau ac ystyried eu rôl mewn gwaith Gwelliant Parhaus sy'n digwydd yn y gweithle mewn modd mwy effeithiol.

Bu cyfranogwyr y rhaglen yn archwilio meysydd megis creu, profi, gweithredu a chynnal y gwelliant.